-

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CYMORTH GYDA CHOSTAU GOFAL PLANT

CANLLAW I FFYNONELLAU CYMORTH I RIENI ANABL NEU RIENI PLANT ANABL

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

Ebrill 2011

Tudalen

CYFLWYNIAD
Asesiadau Angen 3

BUDD-DALIADAU ANABLEDD
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) 3
Lwfans Gofalwyr/Premiwm Gofalwyr 5
Taliadau Uniongyrchol 5
Credyd Treth Gwaith 6

HAWLIAU CYFLOGAETH
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 7
Gweithio'n Hyblyg/Cydbwysedd rhwng Gwaith a Bywyd 7
Addasiadau rhesymol yn y gweithle 8

CYNLLUNIAU GOFAL PLANT A GYNORTHWYIR
Lleoedd a Gynorthwyir Cynllun Cronfa wrth Gefn 8
Lleoedd a Gynorthwyir: Cylch Chwarae/Cylch Meithrin 9
CPCKC/ Cynllun Help Llaw CPCKC 10
Rhwydwaith Cymunedol Gofal Plant 11
Daybreak 11
Cymru/PPA/Mudiad Ysgolion Meithrin 12

SEFYDLIADAU DEFNYDDIOL ERAILL
Children Today 12
Cauldwell Children 12
Cyswllt Teulu Cymru 13
Rhwydwaith Rhieni Anabl (DPN) 13
Disability, Pregnancy & Parenthood International (DPPI) 13
Cronfa Teulu 14
Fledglings 15
Cynllun Motability 15
Whizz-Kidz 16
Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam 16

GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD WRECSAM
Swyddog Ariannu Gofal Plant 17
Prosiect Genesis Cymru Wales 2 17

CYFLWYNIAD

Amcan y canllaw hwn yw tynnu ynghyd y ffynonellau cymorth ariannol sydd ar gael ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam i gynorthwyo rhieni sydd naill ai'n anabl eu hunain neu sydd â phlentyn anabl. Gwybodaeth sylfaenol a ddarperir yn unig, gan fod cymhwyster yn dibynnu ar amgylchiadau ac incwm. Felly rhaid i rieni drafod gyda'r enwau cyswllt a nodir i gael help ariannol.

Argymhellwn hefyd eich bod yn darllen ein canllaw cyffredinol i rieni sy'n rhestru cymorth arall gyda chostau gofal plant sydd ar gael i bob rhiant.

I gloi, gweler fy manylion cyswllt i alluogi rhieni i gysylltu â mi, Lynne Mort (Swyddog Cefnogaeth Ariannu Gofal Plant) i gael cymorth a chyngor ar faterion talu am ofal plant.

Asesiadau Angen

Os oes angen help ychwanegol arnoch boed yn ariannol neu'n ymarferol i fagu eich plentyn oherwydd anabledd gallwch gysylltu â'ch tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol am 'asesiad angen.' Bryd hynny, bydd gweithiwr cymdeithasol yn trafod anghenion eich plentyn yn ogystal ag anghenion aelodau eraill o'r teulu gan gynnwys chi fel gofalwr. Gallwch drafod y mathau o wasanaeth a fyddai'n bodloni anghenion eich teulu. Dylai'r asesiad fod yn un amlasiantaeth (h.y. cynnwys ystyriaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac anghenion addysgol) a chael ei gwblhau yn unol â'r Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Adran Iechyd, 2000)

Os hoffech i'ch plentyn gael ei asesu yn unol â'r Ddeddf Plant, cysylltwch â'ch gwasanaethau cymdeithasol lleol, eich meddyg teulu neu ymwelydd iechyd am gyngor am y camau nesaf.

BUDD-DALIADAU ANABLEDD

Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

DLA yw'r prif fudd-dal ar gyfer plant anabl ac oedolion anabl (sy'n gallu hawlio hwn drostynt eu hunain). Nid oes prawf modd ar DLA ac mae iddo ddwy ran. Caiff yr elfen ofal ei thalu ar dair cyfradd ac mae'n helpu gyda gofal personol. Mae'r elfen symudedd yn helpu gyda symudedd ac yn cael ei thalu ar ddwy gyfradd.

Efallai y bydd eich plentyn yn gymwys ar gyfer elfen symudedd y DLA o dair oed ymlaen os oes gan eich plentyn anhawster symud o gwmpas oherwydd nam corfforol neu feddyliol. Os oes gan eich plentyn neu berthynas hawl i gyfradd uwch yr elfen symudedd, efallai y bydd gennych hawl i Fathodyn Glas ar gyfer parcio i'r anabl ac i gael eich eithrio rhag talu treth cerbyd. Os yw problemau eich plentyn yn llai difrifol ond eu bod angen goruchwyliaeth yn yr awyr iach, yna efallai y bydd yn gymwys i lefel is yr elfen symudedd o bump oed ymlaen.

Mae'n bwysig iawn cael DLA oherwydd y gall eich helpu i fod â hawl i symiau ychwanegol o fudd-daliadau eraill fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor. Os ydych yn cael Credyd Treth Plant ac yn gwneud cais am DLA (neu os yw swm y DLA yn cael ei gynyddu), dylech ddweud wrth y Swyddfa Credydau Treth eich bod yn gwneud hyn. Bydd hyn yn gwarchod eich hawl i ôl-ddyddio unrhyw gredydau treth.

Mae taflen wybodaeth am ddim i'w chael gan Contact a Family a chyngor un i un: Ffôn 0808 808 3555 Gwefan: www.cafamily.org.uk

Mae Llinell Gymorth budd-daliadau yn wasanaeth gwybodaeth a chynghori y gallwch ei ffonio os ydych yn wael neu'n anabl neu os ydych yn gofalu am rywun ac yn gweithredu ar eu rhan. Ffoniwch: 0800 88 22 00, Ffôn testun: 0800 24 33 55

Gallwch hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth RNID *Typetalk*.
Mae ar agor o 8.30 am i 6.30 pm ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9.00 am i 1.00 pm ddydd Sadwrn.

Mae Llinell Gymorth Budd-daliadau'n rhoi cyngor cyffredinol am fudd-daliadau. Dylai ymholiadau ynghylch cais am fudd-dal arbennig gael eu cyfeirio i'r swyddfa sy'n ymdrin â'ch cais.

Lwfans Gofalwr

Efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwr os ydych dros 16 oed ac yn treulio dros 35 awr yr wythnos yn gofalu am unigolyn sy'n derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:-

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl (ar y raddfa ganol neu uchaf am ofal personol)
- Lwfans Gweini Cyson (gwiriwch y meini prawf)

Mae uchafswm y gallwch ei ennill (ar ôl tynnu costau gofal plant) ac ni allwch astudio am fwy na 21 awr yr wythnos.

Fel rheol, ni allwch dderbyn Lwfans Gofalwr os ydych yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Mamolaeth, Lwfans Ceisio Gwaith neu Bensiwn Ymddeol y Wladwriaeth. Ond fe all hawlio Lwfans Gofalwr ddal i'ch helpu, oherwydd y gall gynorthwyo eich hawl i fudd-daliadau eraill â phrawf modd fel Cymhorthdal Incwm.

Premiwm Gofalwr

Swm ychwanegol yw Premiwm y Gofalwr sy'n cael ei ychwanegu at y budd-daliadau â phrawf modd a nodwyd uchod. Mae Premiwm y Gofalwr yn rhan o'r cyfrifiadau perthnasol i'ch hawl os ydych yn derbyn neu wedi hawlio Lwfans y Gofalwr a'r unig reswm nad ydych yn ei gael yw eich bod yn cael budd-dal arall yn ei le.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Llinell Ymholiadau Budd-daliadau, Ffôn: 0800 882200 neu'r wefan: www.direct.gov.uk

Taliadau Uniongyrchol

Gallwch ofyn i'ch awdurdod lleol am Daliad Uniongyrchol os ydych yn rhiant plentyn anabl, rhywun ifanc anabl 16-17 oed, neu oedolyn anabl. Taliadau arian parod gan eich awdurdod lleol yw taliadau uniongyrchol ar gyfer prynu eich gwasanaethau eich hun. Nid oes modd gwneud y taliadau hyn heb asesiad.

Mae modd defnyddio taliadau uniongyrchol i roi cymorth ychwanegol i'ch plentyn mewn meithrinfa neu leoliad arall neu dalu i rywun ddod i'ch tŷ a darparu gofal neu gludiant. Bydd rhai teuluoedd yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol i'w plentyn anabl allu mynychu canolfan hamdden neu gynllun chwarae gwyliau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Direct Payment Support Service, Penderels Turst, The Cunliffe Centre, 67 Rhosddu Road, Wrexham LL11 2NW. Tel: 01978 291660. Ebost: wrexham@penderelstrust.org.uk

Credyd Treth Gwaith

Taliad yw hwn i ychwanegu at enillion pobl sy'n gweithio am gyflog isel. Os ydych yn anabl efallai y byddwch yn gymwys i elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Llinell Gymorth Treth : Ffôn 0845 300 3900 neu ewch i: www.hmrc.gov.uk/taxcredits

HAWLIAU CYFLOGAETH

Y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amcan Deddf Cydraddoldeb 2010 yw diogelu pob anabl a rhwystro gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'n rhoi hawliau cyfreithiol i bobl anabl yn y meysydd cyflogaeth, addysg, mynediad at nwyddau, mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cyrff cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn rhoi hawliau i bobl beidio â chael eu haflonyddu a'u gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail eu cysylltiad ag unigolyn anabl. Gall hyn fod yn berthnasol i ofalwr neu riant unigolyn anabl. Yn ychwanegol i hyn, ni ddylai pobl gael eu gwahaniaethu yn erbyn na'u haflonyddu yn uniongyrchol oherwydd tybiwyd eu bod yn anabl ar gam.

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Cydraddoldeb a sut gallwch gael copïau o'r Ddeddf ar wefan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth. http://www.equalities.gov.uk/equality_act_2010.aspx

Gweithio'n Hyblyg/Cydbwysedd Rhwng Gwaith a Bywyd

Mae 'Gweithio'n Hyblyg' yn ymadrodd sy'n disgrifio unrhyw batrwm gwaith sydd wedi ei addasu i fodloni eich anghenion. Gall unrhyw un ofyn i'w cyflogwr am drefniadau gweithio'n hyblyg, ond mae'r llywodraeth wedi

cyflwyno hawl statudol er mwyn annog ceisiadau. Os ydych yn weithiwr (ond nid yn weithiwr i asiantaeth neu yn y lluoedd arfog) ac wedi gweithio i gyflogwr am 26 wythnos neu fwy yn ddi-dor cyn gwneud cais, mae gennych hawl statudol i ofyn a oes gennych blentyn iau na chwech oed neu blentyn anabl iau na 18.

Os ydych wedi gweithio i'ch cyflogwr am o leiaf blwyddyn, mae gennych hawl i hyd at 18 wythnos o wyliau heb dâl i ofalu am blentyn anabl iau na 18 oed. Gallai hyn eich helpu i fynd i apwyntiadau yn yr ysbyty ac ati. Gallwch hefyd gymryd amser i ffwrdd ar frys megis argyfwng iechyd gyda'ch plentyn. Gallai hynny fod gyda thâl, neu'n dd-dâl, gan ddibynnu ar eich cyflogwr.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn llunio canllaw i'r cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ac mae ar gael yn www.wrecsam.gov.uk/fis neu drwy ebostio fis@wrexham.gov.uk Ffôn 01978 292094

Addasiadau Rhesymol yn y Gweithle

Yn unol â'r DDA, mae gan eich cyflogwr ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' i sicrhau nad ydych yn wynebu anfantais sylweddol oherwydd trefniadau gwaith neu unrhyw nodwedd ymarferol o'ch gweithle. Byddai'r math o addasiadau y dylai eich cyflogwr eu hystyried, mewn ymgynghoriad â chi yn cynnwys:

- Rhannu peth o'ch gwaith â rhywun arall
- Eich trosglwyddo chi i swydd arall neu weithle arall
- Gwneud addasiadau i'r adeiladau yr ydych yn gweithio ynddynt
- Bod yn hyblyg gyda'ch oriau - eich caniatáu i gael oriau gweithio craidd gwahanol ac i fod allan o'r swyddfa i'ch asesu, i gael triniaeth neu adferiad
- Darparu hyfforddiant
- Darparu offer wedi ei addasu
- Gwneud canllawiau a llawlyfrau yn fwy hygyrch
- Darparu darllenydd neu gyfieithydd

CYNLLUNIAU GOFAL PLANT A GYNORTHWYIR

Mae'r canlynol yn rhestru'r gwahanol gynlluniau ledled ardal Wrecsam all gynnig gofal plant am ddim. Sylwer bod pob cynllun yn gyfyngedig i'w cronfa a nifer y ceisiadau a dderbyniant ac nid oes sicrwydd y derbyniwch nawdd. Cysylltwch â'r sefydliad unigol am ragor o wybodaeth.

CYNLLUN CRONFA WRTH GEFN: LLEOEDD A GYNORTHWYIR

Mae hwn yn gynllun a ariennir gan CYMORTH (Cronfa Cefnogi Plant ac Ieuenctid) ac yn rhoi cymorth ariannol i blant a theuluoedd mewn angen eithriadol. Mae'n galluogi plant rhwng 0 a 3 oed o gefndiroedd difreintiedig

sydd â'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol mewn perygl, i fanteisio ar brofiad presenoldeb rheolaidd mewn lleoliad gofal plant

- Plant â phroblemau cymdeithasol / ymddygiad
- Plant gyda rhieni sy'n derfynol neu ddifrifol wael
- Plant o deuluoedd lle mae cryn dyndra teuluol
- Plant gydag anableddau difrifol

Gellir darparu lleoliadau gyda gofalwr plant, canolfan gofal dydd i blant neu feithrinfa ddydd.

Rhaid i Ymwelydd Iechyd, Gweithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Addysg neu Weithiwr Proffesiynol arall sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion arbennig atgyfeirio'r holl blant sy'n cael lle a gynorthwyir o'r Gronfa Wrth Gefn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lynne Mort (Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant), Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Tŷ AVOW, 21 Stryt Egerton, Wrecsam LL11 1ND. Ffôn: 01978 298340, Ebost: lynne.mort@wrexham.gov.uk

Lle a Gynorthwyir mewn Cylch Chwarae /Cylch Meithrin

Gall Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru a Mudiad Ysgolion Meithrin wneud cais am le a gynorthwyir yn y grŵp ar gyfer plentyn lle mae'r teulu'n derbyn un neu fwy o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Budd-dal Analluedd

I deuluoedd ar unrhyw un o'r budd-daliadau uchod, bydd 2 sesiwn yr wythnos yn cael eu cyllido yn y lleoliad. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lynne Mort (Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant), Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Tŷ AVOW, 21 Stryt Egerton, Wrecsam LL11 1ND. Ffôn: 01978 298340, Ebost: lynne.mort@wrexham.gov.uk

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)

Mae Cymorth yn rhoi cyllid i CPCKC i ddarparu cynllun lleoedd a gynorthwyir i alluogi plant 3-14 oed sy'n cael anawsterau, lle nodwyd y byddai mynychu cyfleuster lleol Allan o'r Ysgol yn lliniaru'r anawsterau hyn, ac na fyddent fel arall yn gallu cael lle.

Mae anawsterau'n cynnwys:

- Afiechyd terfynol rhiant

- Anabledd neu broblem iechyd hirfaith y plentyn neu aelod arall o'r teulu
- Plentyn gydag anawsterau ymddygiad
- Tyndra teuluol
- Perygl o allgau cymdeithasol

Cynllun Help Llaw CPCKC

Bydd Gweithiwr Cefnogi Chwarae "1-1" yn cael ei ariannu mewn Clwb Allan o'r Ysgol lle bydd y plentyn yn cael cefnogaeth 1-1 yn yr ysgol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC), d/o Sandra Thompson, (Swyddog Datblygu Gofal Plant Allan o'r Ysgol), Second Floor, 19 Princes Dr, Colwyn Bay, LL29 8HT Ffôn: 01978 856746

Rhwydwaith Cymunedol Gofal Plant

CYMORTH - y Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc - sy'n ariannu'r Cynllun Cymunedol Gofal Plant yn Wrecsam. Mae ar gael i blant rhwng 0 a 3 oed a'i nod yw darparu gwasanaeth o safon i blant a theuluoedd sydd wedi eu hadnabod fel rhai mewn angen gan ymwelydd iechyd neu weithiwr cymdeithasol. Mae'r lleoliadau am hyd at 6 mis.

Mae Gofalwyr Plant y Rhwydwaith wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ac mae eu gwasanaeth yn cael ei arolygu'n rheolaidd o ran Safonau Ansawdd NCMA "Plant Sy'n Dod Gyntaf". Mae'r lleoliadau'n cael eu harolygu'n rheolaidd hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Linda Jones (Cydlynydd Rhwydwaith), NCMA, Llawr Cyntaf Tŷ Milwood, Ffordd Coed Aben, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Wrecsam, LL13 9UH. Ffôn: 0845 8801316.

Daybreak

Gwasanaeth yw hwn sy'n cynnig seibiannau i rieni plant anabl a'u brodyr a chwiorydd pan fo un plentyn o leiaf rhwng 5 ac 16 oed, trwy dalu am hyd at 8 awr yr wythnos o ofal plant yn ystod y gwyliau ysgol.

Diffinnir plentyn anabl fel plentyn sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

Gellir defnyddio'r gronfa ar gyfer gwasanaethau fel:

- Ffioedd gofal plant
- Ffioedd Clybiau Gwyliau, neu gynlluniau gweithgaredd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Tricia yn DYNAMIC, Ffôn: 01978 263656.

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (Wales PPA) / Mudiad Ysgolion Meithrin

Caiff gweithwyr cynnal eu noddi ar gyfer plant oed Cylch Chwarae sydd â'u teuluoedd angen cymorth ac sy'n cael eu hatgyfeirio at y cynllun hwn gan Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar. Nodwyd yr anghenion hyn fel:

- Ymddygiad cymdeithasol / emosiynol
- Araf yn datblygu
- Nam ar y synhwyrau
- Amhariad corfforol

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch Swyddogion Datblygu/Ardal:

Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM), Swyddfa Gogledd Ddwyrain Cymru, Uned B, Pentref Busnes Iâl Rhodfa Elice Way, Wrecsam LL13 7YL Ffôn: 07792 946837

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru (Wales PPA), The Hutments, Neuadd y Sir Llwynegrin, Yr Wyddgrug, CH7 6NB Ffôn: 01352 756885

SEFYDLIADAU DEFNYDDIOL ERAILL

Children Today

Mae *Children Today* yn darparu grantiau ar gyfer offer arbennig i blant a phobl ifanc sydd â salwch ac anabledd nas ariennir gan GIG. Mae'r rhain yn cynnwys cadeiriau olwyn awtomatig, cadeiriau olwyn cyffredin a rhai ar gyfer chwaraeon, treisiclau a beiciau a addaswyd, coets a chynorthwywyr cerdded yn ogystal ag offer synhwyrol a ddyluniwyd yn arbennig megis Chwistrelli Ffibr Optig ledled y DU. Maent hefyd yn darparu offer cyfrifiadurol ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Aidis.

Os hoffech wneud cais am grant, ffoniwch 01244 335622 i drafod eich cais. Rhaid i geisiadau fod ar gyfer offer arbenigol i blant unigol (nid grwpiau nac ysgolion), a rhaid gwneud y cais gan yr unigolyn, ei riant neu ei warcheidwad cyfreithiol.

Y manylion cyswllt yw: *Children Today Charitable Trust*, The Rowton, Christleton, Caer CH37AE Ffôn : 01244 335622; Ffacs: 01244 335473; e-bost: info.@children-today.org.uk

Caudwell Children

Mae *Caudwell Children* yn cynnig rhoddion uniongyrchol i achosion plant unigol sydd ag anghenion meddygol arbenigol, salwch, neu wyliau olaf. Yn 2004 bu i'r elusen ehangu i gynnwys y wlad i gyd a gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau sydd bellach yn cyrraedd o bob rhan o'r wlad o Aberdeen, Belfast a Southampton.
E-bostiwch: charity@caudwellchildren.com neu am ragor o wybodaeth ewch i'w gwefan sef: ww.caudwellchildren.com.
Ffôn: 0845 300 1348.

Cyswllt Teulu Cymru

Pan fydd rhieni'n dod i wybod bod eu plentyn yn anabl maent yn teimlo'n unig ac wedi eu hynysu gan na wyddant fel arfer am unrhyw un arall sy'n wynebu'r un problemau. Maent yn dymuno cysylltu a theulu arall sydd wedi cael profiad tebyg ac mae angen gwybodaeth am anabledd eu plentyn arnynt. *Contact a Family* yw'r unig elusen yn y DU sy'n darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni plant anabl – beth bynnag fo'u cyflwr iechyd neu anabledd. Maent hefyd yn galluogi rhieni i gysylltu â theuluoedd eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

Cyswllt Teulu Cymru
33-35 Ffordd y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB
Ffôn: 029 2039 6624
Ffacs: 029 2039 6625
E-bost: wales.office@cafamily.org.uk
Gwefan: www.cafamily.org.uk

Rhwydwaith Rhieni Anabl (RhRhA)

Mae'r Rhwydwaith Rhieni Anabl (RhRhA) yn sefydliad cenedlaethol ar gyfer pobl anabl sydd yn rhieni neu'n gobeithio bod yn rhieni, eu teuluoedd, cyfeillion a chefnogwyr.

81 Melton Road, West Bridgford, Nottingham NG2 8EN

Llinell Gymorth: 08702 410 450; **Ymholiadau Cyffredinol:** 08702 410 450
E-bost: e-help@disabledparentsnetwork.org.uk Gwefan www.disabledparentsnetwork.org.uk

Disability, Pregnancy & Parenthood International (DPPI)

Mae DPPI yn hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth a chefnogaeth i bobl anabl yn ystod eu beichiogrwydd a thra'n magu plant.

National Centre for Disabled Parents
Unit 9, 89-93 Fonthill Road
Llundain
N4 3JH
Ffôn 0800 0184 730 Ffôn testun: 0800 018 9949
E-bost: info@dppi.org.uk
Gwefan: www.dppi.org.uk/ www.disabledparents.net

Cronfa'r Teulu

Mae Cronfa'r Teulu'n arbennig ar gyfer rhoi cyfle i deuluoedd gyda phlant anabl iawn neu ddifrifol wael fwynhau bywyd arferol. Mae'r gronfa'n helpu teuluoedd gyda llawer o wahanol eitemau. Rhaid i'r teulu ofyn am eitemau sy'n rhoi cymorth nad yw'n gyfrifoldeb unrhyw asiantaeth statudol. Gall y gronfa ystyried ceisiadau oddi wrth deuluoedd sy'n ennill incwm crynswth o lai na £25,000 ac eithrio goramser a bonysau.

Dyma rai o'r ffyrdd y mae Cronfa'r Teulu wedi cynorthwyo teuluoedd:

- Gwyliau neu weithgareddau hamdden fel bod pawb yn y teulu'n gallu cael seibiant
- Peiriant golchi neu beiriant sychu dillad oherwydd gwlychu'r gwely neu ddillad budr cyson
- Dillad a dillad gwely i dalu am y draul oherwydd anabledd y plentyn
- Gwely os oes angen un newydd oherwydd anabledd y plentyn
- Gwersi gyrru ar gyfer prif ofalwr y plentyn os oes car ar gael
- Costau cludiant os nad yw'r plentyn yn cael cyfradd uwch elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl ond yn parhau i gael anhawster symud o gwmpas
- Oergell a rhewgell os yw anabledd y plentyn yn ei gwneud yn anodd siopa
- Costau ymweld â'r ysbyty fel teithiau hirbell am driniaeth GIG
- Ffôn os yw hyn yn hanfodol am resymau meddygol / cymdeithasol
- Offer chwarae os yw hyn yn berthnasol i anghenion arbennig y plentyn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Family Fund, Unit 4, Alpha Court, Monks Cross Drive, Huttington, York. Ffôn: 0845 130 4542 E-bost: info@familyfund.org.uk neu ymwelwch ag: www.familyfund.org.uk

Fledglings

Mae *Fledglings* yn elusen gofrestredig sy'n helpu rhieni a gofalwyr plentyn sydd ag anghenion arbennig o unrhyw fath i ganfod atebion syml, fforddiadwy i broblemau ymarferol. Maent yn cynnig gwasanaeth chwilio am nwyddau i ganfod teganau, dillad, cynorthwywyr datblygu ac eitemau eraill all ysgogi datblygiad y plentyn a rhoi seibiant i'r gofalwr. Cedwir nifer o

nwyddau fel hyn a gallwn gael llawer mwy o ystod eang o wneuthurwyr a chyflenwyr.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Fledglings, Wenden Court, Station Approach, Wendens Ambo, Saffron Walden, CB11 4LB Ffôn: 0845280 1530. Ffacs: 0845 458 1125. Ebost: enquiries@fledglings.org.uk

Y Cynllun *Motability*: dewisiadau ar gyfer prynu neu hurio car

Gall prynu neu addasu car fod yn ddrud. Mae'r Cynllun Motability - a weithredir gan Motability sy'n sefydliad annibynnol a weithredir ddim er elw - yn rhoi cyfle i bobl anabl brynu neu brydlesu car am bris fforddiadwy os ydych yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel neu radd uwch yr elfen symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA). Hyd yn oed os nad ydych yn gyrru, gallwch wneud cais am gar fel teithiwr a chynnig dau unigolyn arall fel gyrwyr. Gallwch hefyd wneud cais am gar ar ran plentyn sydd dros dair oed sydd â hawl i gael gradd uwch yr elfen symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl.

Contract Hurio

Drwy'r cynllun hurio gallwch brydlesu car newydd a ddarperir gan ddeliwr Motability achrededig am o leiaf tair blynedd. Mae yswiriant cyfun, gwasanaethu rheolaidd a chymorth torri lawr hefyd wedi eu cynnwys. Bydd rhaid i chi dalu am osod neu dynnu unrhyw addasiadau. Gallwch wneud cais os oes gennych 12 mis neu fwy o'r Lwfans Byw i'r Anabl eto i'w dderbyn. O na chaiff y lwfans ei adnewyddu yn ystod cyfnod y cynllun, bydd angen dychwelyd y car.
Ar ddiwedd y cyfnod, dychwelir y car i Motability sy'n gweithredu'r cynllun.

Hurbrynu

Mae hurbrynu yn eich galluogi i brynu'r car yr ydych yn ei ddymuno a gall hwn fod yn gar newydd neu ail law. Chi sy'n gyfrifol am drafod pris a phrynu'r car gyda'r deliwr a threfnu'r yswiriant. Ar ddiwedd y cytundeb prynu - gall fod rhwng dwy a pum mlynedd, chi fydd yn berchen ar y car.

Cadeiriau olwyn awtomatig a sgwteri

Mae Motability hefyd yn cynnig cynllun hurbrynu ar gyfer cadeiriau olwyn awtomatig neu sgwteri.
http://www.direct.gov.uk/en/DisabledPeople/MotoringAnd Transport/Yourvehicleandlicence/DG10028000.

Waving Not Drowning

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi rhieni plant anabl a gofalwyr oedolion sydd am gyfuno eu cyfrifoldebau gofalu â gwaith cyflogedig. Mae'r prosiect yn cynhyrchu newyddlen ac e-fwletinau misol sy'n amlygu materion sydd o ddiddordeb i rieni sy'n gweithio. I gael y newyddlen am ddim "Waving *not* drowning" anfonwch e-bost at janet.mearns@workingfamilies.org.uk . Mae

gan y prosiect linell gymorth arbennig ar gyfer cwestiynau ynghylch gweithio a gofalu: 020 7017 0072.

Whizz-Kidz

Mae Whizz-Kidz yn elusen sy'n rhoi cyfle i blant sydd ag anableddau i fyw bywyd mwy annibynnol. Mae eu gwasanaeth yn bodloni anghenion symudedd unigol plant ac yn sicrhau eu bod yn cael yr offer www.whizz-kidz.org.uk a'r hyfforddiant cywir ar yr adeg iawn.
Maent yn darparu ystod eang o offer symudedd nad ydynt ar gael gan GIG neu wasanaethau statudol eraill (Gwasanaethau Addysg neu Gymdeithasol). I lawrlwytho ffurflen gais Whizz-Kidz ewch i "applying for equipment" ar ei gwefan, www.whizz-kidz.org.uk/ >neu ofyn am ffurflen gais drwy ffonio ein tîm Gwasanaethau Plant ar 0845 052 1231

Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam

- Fe all Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam roi gwybodaeth am gefnogaeth statudol a gwirfoddol sydd ar gael yn sir Wrecsam

- Fe all Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam roi gwybodaeth i chi am sut i gyfarfod ag eraill yn eich ardal, sydd mewn sefyllfa debyg i chi

- Mae Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam yn darparu amrediad o wasanaethau i ofalwyr gan gynnwys hyfforddiant, gweithgareddau cymdeithasol a sesiynau gyda chynghorwr

- Mae Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan ofalwyr am eu hanghenion unigol. Fe ellir rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, asiantaethau Iechyd a Gwirfoddol am yr anghenion a thrwy hyn wella'r gwasanaethau a gynigir i ofalwyr

- Mae Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam yn cyhoeddi cylchlythyr llawn gwybodaeth bob chwarter

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Wrecsam, Tŷ AVOW, 21 Stryt Egerton. Wrecsam LL11 1ND, *Ffôn:* 01978 318812 Ebost: carers@avow.org

GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD WRECSAM

Rydym yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor AM DDIM ar bob agwedd o ofal plant a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Llyfrgell a Chanolfan Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU. Ffôn: 01978 292 094, ebost: fis@wrexham.gov.uk.

Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ynglŷn â materion ariannu gofal plant cysylltwch â Lynne Mort, Swyddog Cefnogi Ariannu Cymorth Plant ar 01978 298343 neu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ar 01978 292094 (ebost: fis@wrexham.gov.uk). Gallwch hefyd gael gwybodaeth bellach ar www.wrexham.gov.uk/fis.

Prosiect Genesis Wales 2

Dyma Brosiect a ariennir gyda chyllid Ewropeaidd sy'n helpu rhieni di-waith i oresgyn rhai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu pan fyddant am ddysgu sgiliau newydd, cael hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar rieni unigol yn bennaf. Gall y Prosiect roi cyngor ac arweiniad am ddim, eich helpu i fagu hyder a gofal plant am ddim neu gymorthdaledig i'r rhai sy'n gymwys i'w dderbyn.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â *Lynda Jones, Cynghorydd Rhieni, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ar 01978 298341 / 292094*

Agor Drysau

Gall Agor Drysau helpu rhieni sy'n ddi-waith neu ar incwm isel i gymryd camau tuag at well dyfodol. Gall Agor Drysau helpu rhieni i gael hyfforddiant drwy eu helpu i ddod o hyd i hyfforddiant a thalu amdano, gofal plant cymorthdaledig am fis, a chostau teithio am fis. Gall Agor Drysau hefyd helpu rhieni sydd â phlant gyda phroblemau iechyd tymor hir neu anableddau i ddod o hyd i ofal plant addas ac arbennig i'w galluogi i gael hyfforddiant neu ddod o hyd i waith.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01978 298342/292094.

Cofiwch, gall y cyhoedd ddefnyddio'r Rhyngrwyd am ddim mewn llyfrgelloedd ledled ardal Wrecsam.